**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 MEDI 2020**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE** |
| **Pwnc:** | **Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE mewn ymateb i Covid-19** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno adroddiad i aelodau'r Cyd-Bwyllgor am y Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE mewn ymateb i Covid-19.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Mae staff yn yr awdurdodau lleol a GwE wedi addasu ac ailgyfeirio eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i gymunedau eu hysgolion.

2.2 O dan amgylchiadau arferol, mae cynnig Dysgu Proffesiynol (DP) GwE yn gynhwysfawr ac yn eang gan ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol i holl staff yr ysgol. Yn ystod pandemig COVID-19, mae GwE a'r ALlau wedi blaenoriaethu iechyd a lles yr holl ddysgwyr a staff addysgu. Mae'r cynnig proffesiynol 'arferol' wedi ei addasu er mwyn bod ysgolion a lleoliadau yn derbyn cefnogaeth berthnasol a phwrpasol. Mae hyn wedi eu galluogi i addasu i'r amgylchiadau heriol. Mae'r dull rhanbarthol o gefnogi cydweithio trwy waith clwstwr wedi parhau gydol y cyfnod hwn.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Mae'r cynnig Dysgu Proffesiynol wedi rhoi blaenoriaeth i gefnogi ysgolion i wella sgiliau digidol eu staff a'u galluogi i ddatblygu dulliau Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol effeithiol ac ymgysylltu â dysgwyr yn fwy effeithiol. Rhoddodd ysgolion groeso cynnes i ddatblygu a rhannu modelau enghreifftiol o ddysgu o bell a dysgu cyfunol ac fe sicrhaodd fod gennym lefelau uwch o gysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth a'r cyflwyniad ledled y rhanbarth.

3.2 Mae'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn sail i'r DP ac yn cefnogi staff addysgu ac arweinwyr gydag addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesedd a'u dysgu proffesiynol.

3.3 Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol hefyd wedi defnyddio dull colegaidd a chyfunol wrth ddatblygu fframwaith cefnogol. Roedd hyn yn sicrhau fod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau cywir ar waith ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr ar gyfer creu amgylchedd diogel er mwyn croesawu plant yn ôl i'r ysgolion.

3.4 Mae'r awdurdodau lleol a GwE wedi cydweithio er mwyn sicrhau dysgu proffesiynol helaeth i gefnogi'r newid i drefniadau mewn ysgolion.

3.5 Mae'r adroddiad hwn (Atodiad 1) yn amlinellu'r cynnig dysgu proffesiynol i ysgolion yn ystod pandemig COVID-19. Mae'n darparu crynodebau a dolenni i'r adnoddau a ddatblygwyd ac a rannwyd ag ysgolion yn ogystal ag amlinelliad byr o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a gynigiwyd.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE mewn ymateb i Covid-19.

## 5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

## 7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

## 8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cydbwyllgor.

## 9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE mewn ymateb i Covid-19

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

---

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.